Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Talgarreg
# Neuadd Talgarreg
# Llandysul
# Ceredigion

**Dyddiad yr arolygiad: 1 Chwefror 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Talgarreg mewn ystafell yn neuadd y pentref. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y gymuned leol. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 12:30 a 3:00 y prynhawn. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd naw plentyn tair oed ar y gofrestr. Daw mwyafrif y plant o gartrefi gyda'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol .

Mae tri aelod o staff. Mae'r lleoliad yng ngofal prif ymarferydd profiadol sy'n meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Cafodd ei phenodi i'w swydd bresennol ym mis Medi 2011. Caiff ei chynorthwyo gan un ymarferydd profiadol ac un ymarferydd arall a phenodwyd ychydig wythnosau cyn yr arolygiad.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2010. Dyma'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad;
- mae medrau llafar Cymraeg y plant yn dda gyda rhai yn cyflawni safonau da iawn;
- mae'r holl blant yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- cynigir cwricwlwm eang a diddorol i'r plant;
- mae'r addysgu'n dda;
- caiff y plant ofal o ansawdd da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol ac ysgogol; ac
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

**Rhagolygon gwella**

| |
|---|
| Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:<br><br>• rheolaeth effeithiol y prif ymarferydd;<br>• gwaith tîm da;<br>• ymrwymiad ac effeithiolrwydd y pwyllgor rheoli;<br>• y ffocws cyson ar sicrhau gwelliannau;<br>• caiff cynlluniau gwella eu gweithredu'n llwyddiannus; a<br>• chyfraniad rhagorol y partneriaethau i ansawdd y ddarpariaeth. |

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio'r cynllunio i sicrhau cydbwysedd a dilyniant cyson ym medrau dysgu'r plant; ac

A2 ymestyn y plant mwy galluog ymhellach.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Gweithiant yn galed gan gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth newydd ar draws pob un o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn eiddgar i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a ddarperir.

Mae'r plant i gyd yn mwynhau gwrando ar straeon a chyflwyniadau'r arweinydd. Maent yn canolbwyntio'n astud ac yn ymateb yn hyderus i gwestiynau. Gallant adalw cynnwys y storïau a thrafod y prif ddigwyddiadau mewn manylder. Maent yn troi o'u gwirfodd at lyfrau ac yn cael pleser o greu marciau ar bapur at ystod o ddibenion.

Gwyddant nifer dda o ganeuon a rhigymau ac maent yn eu hailadrodd yn gywir. Mae ychydig o'r plant yn meddu ar eirfa gyfoethog ac yn defnyddio ymadroddion mwy estynedig yn gywir wrth fynegi barn a thrafod eu profiadau. Mae eu medrau llafar o safon uchel.

Mae bron pob un yn cyfrif i ddeg yn gywir ac yn adnabod rhifau o leiaf i bump. Gwyddant enwau siapiau cyffredin a gallant greu a dilyn patrwm yn gywir. Gwyddant hefyd fod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Maent yn dechrau defnyddio iaith fathemategol fel 'mwy' neu 'llai' a 'trwm' ac 'ysgafn' mewn sefyllfaoedd ymarferol. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol mewn tasgau megis recordio caneuon a sgyrsiau. Defnyddiant y llygoden yn hyderus i greu patrymau a lluniau ac i chwarae gemau.

Gwna'r plant ddefnydd effeithiol o'u medrau meddwl a gwneud penderfyniadau mewn ystod o weithgareddau ymchwiliol yn yr ystafell a thu allan. Gwnânt ddefnydd dychmygus o ystod o ddeunyddiau i gynhyrchu peintiadau a darluniau o safon dda iawn. Dangosant fedrau llawdrin mân da wrth ddal pensil neu frwsh ac wrth ddefnyddio offer torri a gludo i greu gludwaith a thrafod clai. Gallant drin adnoddau, megis deunyddiau adeiladu, yn dda a'u huno a'u datgysylltu yn ddidrafferth. Maent yn hyderus i chwarae rôl megis yn y siop neu fel adeiladwyr.

**Lles: Da**

Mae gan y plant ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael. Maent yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus ac yn cyd-chwarae yn hwylus. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefel dda o annibyniaeth. Maent i gyd yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd ac yn arbennig cyn bwyta byr brydau.

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae eu medrau cymdeithasol yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau yn deillio o'r bartneriaeth agos gyda'r gymuned.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Darperir ystod o weithgareddau perthnasol sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Caiff y gweithgareddau eu cynllunio'n ofalus ar draws chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Caiff y plant gyfleoedd i gyfrannu tuag at gynllunio'r themâu. Mae'r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y

plant a thasgau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Gwneir gwerthusiadau priodol o'r gweithgareddau a defnyddir y sylwadau ar gyfer cynllunio pellach.

Mae'r cynllunio yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau dysgu'r plant. Cânt eu hymgorffori'n briodol yn y themâu a'r profiadau a gynllunnir. Er hyn, nid oes sylw digonol bob amser i sicrhau cydbwysedd a dilyniant cyson yn y medrau ar draws y meysydd dysgu.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith da. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda'r plant yn ystod gweithgareddau ac yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn a chyfoethogi eu hiaith. Cyflwynir y plant i draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, yn effeithiol. Darperir cyfleoedd hefyd i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau pwrpasol megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn dda i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae'r profiadau o dyfu a gofalu am blanhigion yn yr ardd, gweithgareddau ailgylchu, a thasgau yn ymwneud ag astudio anifeiliaid a'u cynefin, yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth gynyddol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu, gan gynnwys gwaith ar lefel unigol, grŵp bach a grŵp cyfan, yn effeithiol. Caiff y gweithgareddau eu paratoi a'u trefnu'n fanwl a gwneir defnydd da o adnoddau i hyrwyddo'r dysgu. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ymestyn y plant mwy galluog yn ddigonol. Cynigir cyfleoedd da i'r plant i archwilio ac arbrofi mewn sefyllfaoedd ymarferol megis yn y gweithdy coed, y siop a'r bwrdd darganfod.

Mae'r ymarferwyr yn sefydlu perthynas waith agos gyda'r plant sydd yn eu hannog i gyfrannu a mwynhau. Mae defnydd y prif ymarferydd o gwestiynau agored yn hyrwyddo trafodaethau brwd a diddorol. Mae hon yn nodwedd dda iawn o'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u datblygiad cyffredinol a'u hanghenion dysgu. Defnyddir gweithdrefnau priodol i asesu a chofnodi eu cynnydd a chwblheir cofnod o gyrhaeddiad pob plentyn yn y chwe maes dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am eu cyflawniadau a'u datblygiad trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas. Cychwynnwyd ar drefn o gasglu enghreifftiau o waith pob plentyn mewn llyfryn sy'n gofnod defnyddiol o'u datblygiad. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth briodol i'r ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch deuluol sy’n cyfrannu’n arwyddocaol tuag at les y plant. Mae polisïau a threfniadau addas i gefnogi iechyd a lles plant yn weithredol. Mae’r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym. Mae’r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol iawn o’r holl blant. Mae hon yn nodwedd gref o’r ddarpariaeth.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch a charedigrwydd, a dealltwriaeth o’r hyn sy’n gywir a’r hyn sy’n anghywir, yn effeithiol drwy’r cwricwlwm a’r gweithgareddau dyddiol. Mae dathliadau diolchgarwch a gwaith ar stori’r Nadolig yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae’r cysylltiadau gyda’r gymuned yn cryfhau ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin a’u rôl o fewn eu cymdeithas yn llwyddiannus iawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i’r holl weithgareddau a ddarperir. Mae’r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu’n effeithiol yn unol â’r wybodaeth hon. Mae cymhareb ffafriol o ran ymarferwyr i blant.

Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda. Gwneir defnydd pwrpasol o’r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd gweithgareddau o amgylch yr ystafell. Llwyddir i greu amgylchedd dysgu symbylus trwy arddangos gwaith y plant a chreu arddangosfeydd i gyd-fynd â’r themâu dan sylw. Gwneir defnydd rheolaidd o’r ardal allanol, sydd yn cynnwys gardd fechan, i ddarparu cyfleoedd effeithiol i’r plant archwilio a chwarae.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad effeithiol y prif ymarferydd, llwyddir i greu amgylchedd trefnus a phwrpasol i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn deall eu rolau sy’n arwain at greu gwaith tîm effeithiol. Maent yn meddu ar egwyddorion a gwerthoedd sefydlog sy’n seiliedig ar hyrwyddo datblygiad llawn bob plentyn.

Mae’r pwyllgor rheoli yn cynnig cymorth ac arweiniad cadarn i’r lleoliad. Mae’r aelodau yn cyfrannu’n rheolaidd o’u harbenigedd proffesiynol a’u medrau personol i gynnig cefnogaeth bwrpasol. Mae gan y swyddogion ddiddordeb mawr yn yr hyn sy’n digwydd a chydweithiant yn agos gyda’r prif ymarferydd. Maent yn ymwelwyr rheolaidd ac yn gweithredu’n effeithiol fel ffrind beirniadol. Meddant ar wybodaeth sicr o ansawdd y ddarpariaeth a gynigir. Trefnir cyfarfodydd rheolaidd a chedwir cofnodion o’r trafodaethau, sy’n sail i gynllunio pellach.

Mae’r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda’r ysgol gynradd. Gweithredir strwythurau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o brif gryfderau’r lleoliad. Gwelir hyn yng nghynnwys yr adroddiad hunan arfarnu a’r cynllun gwella. Mae’r ymarferwyr yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella’r ddarpariaeth ymhellach.

Caiff y ddarpariaeth ei fonitro’n gyson gan athrawes gyswllt yr awdurdod addysg. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Gwelir ffocws da ar hybu medrau’r plant ar draws y meysydd dysgu. Fel rhan o’r swydd, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd rheolaidd. Ar adegau penodol, cynhelir arsylwadau ar agweddau o’r ddarpariaeth. Caiff canlyniadau’r holl arsylwadau eu trafod gyda’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli a chant eu defnyddio’n adeiladol ar gyfer cynllunio pellach. Mae trefn mewn lle i’r arweinydd gyflwyno adroddiad ar waith y lleoliad i’r pwyllgor rheoli bob tymor. Ceisir barn rhieni ar agweddau ar y ddarpariaeth a rhoddir sylw priodol i’r sylwadau a wneir.

Mae’r cynllun datblygu presennol yn nodi meysydd addas ar gyfer gwelliant ac yn cynnwys gweithdrefnau manwl ar gyfer cyflawni’r targedau a osodir. Caiff gweithrediad y cynllun ei fonitro’n rheolaidd gan y pwyllgor rheoli. Mae rhai o’r prif dargedau wedi’u cyflawni’n barod.

Mae’r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Defnyddiant yr hyfforddiant a geir yn effeithiol. Mae’r arweinydd yn cyfrannu at gyrsiau hyfforddiant a drefnir gan yr awdurdod lleol ar agweddau o reolaeth ac ar ddatblygiad creadigol plant. Mae rhwydweithio a chysylltiadau anffurfiol rhwng y lleoliad a lleoliadau eraill yn yr ardal.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Gwna’r lleoliad ddefnydd rhagorol o ystod eang o bartneriaethau strategol sy’n cyfrannu’n llwyddiannus tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ac ehangu cyflawniadau’r plant.

Mae partneriaeth a chydweithio llwyddiannus iawn rhwng y lleoliad a'r pwyllgor rheoli. Mae aelodau'r pwyllgor yn deall eu rolau ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithlon. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar brosesau cynllunio ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth, sy'n datblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r swyddogion yn ddyfeisgar iawn, ac yn llwyddiannus, yn eu hymdrechion cyson i ennill grantiau a chodi arian ychwanegol. Rhennir y syniadau da yma gyda lleoliadau eraill. Trwy fonitro, sicrheir bod y gwariant yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd a lles plant.

Mae ymglymiad y lleoliad o fewn y gymuned yn nodwedd gref. Gwelir y lleoliad fel aelod annatod o'r gymuned gydag asiantaethau, busnesau lleol a mudiadau yn darparu cefnogaeth ymarferol ac ariannol yn rheolaidd. Gyda chymorth, llwyddwyd i sicrhau gwelliannau i'r safle, megis creu lle chwarae allanol a gardd, a phrynu adnoddau ychwanegol. Gwneir defnydd effeithiol o fedrau pobl yn y gymuned, megis crefftwyr ac arlunydd, i gyfrannu at y ddarpariaeth.

Mae partneriaeth agos rhwng yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, athrawes gyswllt yr awdurdod addysg a swyddog datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn yn creu gwaith tîm llwyddiannus iawn. Cyflwynir strategaethau effeithiol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Gyda chefnogaeth yr athrawes gyswllt, rhennir yr esiamplau o arfer dda yn y ddarpariaeth gyda lleoliadau ac arweinwyr eraill drwy'r rhwydweithiau hyfforddiant.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda iawn. Cadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Cyfathrebir yn rheolaidd gyda'r rhieni ar ffurf llythyr, neges testun, e-bost a chyfarfodydd rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni yn rhan annatod o'r trafodaethau a'r cynllunio pellach. Sefydlwyd perthynas agos hefyd gyda'r ysgol gynradd leol sy'n hyrwyddo trefniadau trosglwyddo ac yn cynnig cyfleoedd da i'r plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis cyngherddau, dathliadau a mabolgampau.

### Rheoli adnoddau: Da

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd da o'u hamser a'u profiad wrth weithio gyda'r plant mewn ystod o weithgareddau. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ac mae eu hargaeledd yn hybu annibyniaeth y plant. Mae'r buddsoddiad yn yr ardal chwarae allanol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymgymryd ag ystod o weithgareddau gwerthfawr.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Dilynir trefniadau cyllidebu systematig a gwneir defnydd rheolaidd o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus iawn yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau.  Maent yn sgwrsio'n hyderus am eu hoff weithgareddau a'u diddordebau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**  Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2013. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |